

Amseroedd aros cancer GIG Cymru

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae'r ystadegau ar amseroedd aros cancer yn dangos data ar yr amseroedd aros a adroddwyd gan fyrddau iechyd lleol Cymru bob mis. Cofnodir yr amseroedd aros ar gyfer tri llwybr; cleifion ar y llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser, cleifion nad ydynt ar y llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser a phob claf lle ceir amheuaeth o ganser (un llwybr cancer).

O fis Rhagfyr 2017 ymlaen:

Mae data ar amseroedd aros cancer wedi'i gyhoeddi mewn adroddiad blynyddol, yn hytrach na datganiad ystadegol chwarterol.

Yn ogystal â'r adroddiad blynyddol, rydym yn cyhoeddi datganiad ystadegol cyntaf cryno yn fisol gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch y GIG a'r ystadegau perfformiad, gan gynnwys amseroedd aros cancer. Mae hyn yn cynnwys dolen i dablau yn StatsCymru. Mae'r datganiad yn cynnwys manylion unrhyw ddiwygiadau i ddata'r mis blaenorol neu unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud ag ansawdd.

Gweler yr adran '[Cyhoeddi a diwygio](#)' am ragor o fanylion.

O fis Mehefin 2019 ymlaen:

Cyflwynwyd dull newydd o gasglu data cancer. Mae'r un llwybr cancer yn cael ei gyhoeddi law yn llaw â'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser ac nid drwy'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser.. Bydd y data'n cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Awst 2019 yn y crynodeb misol o weithgarwch a pherfformiad y GIG.

Mae cleifion â chanser wedi'u rhannu'n ddau grŵp gwahanol (yn unol â safonau cancer):

Rhai a gyfeiriwyd drwy'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio o ofal sylfaenol (e.e. gan feddyg teulu) i ysbyty ar frys oherwydd amheuaeth o ganser, a gaiff ei gadarnhau wedyn fel mater brys gan yr ymgynghorydd neu gan aelod dynodedig o'r tîm amlddisgyblaethol (MDT). Dywed y safonau y dylai pob claf sydd newydd gael diagnosis o ganser drwy'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser gychwyn triniaeth ddiffiniol o fewn 62 diwrnod o dderbyn atgyfeiriad i'r ysbyty.

Rhai na chânt eu hatgyfeirio drwy'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys pob claf arall â chanser (waeth beth yw'r llwybr atgyfeirio), nad yw eisoes wedi'i gynnwys fel atgyfeiriad brys lle ceir amheuaeth o ganser (e.e. drwy ddamwain ac mewn argyfwng neu drwy ymchwiliad am gyflwr gwahanol). Dylai cleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser nad yw'n achos brys, gychwyn triniaeth ddiffiniol o fewn 31 diwrnod i gael diagnosis.

O fis Mehefin 2019 ymlaen, mae pob claf ag amheuaeth o ganser yn cael ei gynnwys ar un llwybr amheuaeth o ganser. Mae hyn yn cynnwys pob claf oedd wedi'i gynnwys yn flaenorol ar y ddau lwybr gofal arall, a phob claf ag amheuaeth gychwynnol nad ydynt wedi cael diagnosis eto. Bydd y data cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst 2019.

Un llwybr cancer

Bydd yr un llwybr cancer newydd yn dechrau o'r adeg lle ceir amheuaeth o ganser, yn hytrach na phan gadarnheir yr achos o ganser, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda rhai cleifion cancer. Y bwriad yw na ddylai'r driniaeth gychwyn ddim hwyrach na 62 diwrnod o'r adeg y ceir amheuaeth o ganser yn y lle cyntaf.

Bydd y llwybr newydd hwn yn cael ei adrodd ar y cyd â'r mesurau cyfredol. I gael rhagor o wybodaeth a diweddariadau pan fyddant ar gael, gweler y datganiad gweithgarwch a pherfformiad misol.

Ystadegau ar gleifion ar y llwybr brys a chleifion nad ydynt ar y llwybr brys:

Mae'r ystadegau'n cynnwys pob claf â chanser, lle bynnag y mae'n byw, sydd wedi dechrau triniaeth ddiffiniol a ariennir gan y GIG yn ystod y cyfnod adrodd. Nid yw'n cynnwys cleifion o Gymru sydd â chanser sy'n cael triniaeth mewn ysbytai preifat neu yn ysbytai'r GIG y tu allan i Gymru.

Adroddir gwybodaeth am gleifion yn erbyn y bwrdd iechyd y cyfeiriwyd nhw ato'n wreiddiol. Y bwrdd iechyd hwnnw sy'n gyfrifol bob amser am fonitro cynnydd y claf ac felly'n adrodd arno, er enghraifft:

- mae claf yn cael ei atgyfeirio i fwrdd iechyd lleol A ac yn cael ei drin gan fwrdd iechyd lleol A. Felly, bwrdd iechyd lleol A sy'n gyfrifol am fonitro'r broses; neu
- mae yn cael ei atgyfeirio i fwrdd iechyd lleol A, ond yn cael ei drin gan fwrdd iechyd lleol B. Mae bwrdd iechyd lleol A yn cyfeirio'r claf at fwrdd iechyd lleol B i gael triniaeth, ac felly, bwrdd iechyd lleol A yw "perchennog ar yr amser aros" ac felly'n adrodd ar gyfer y claf hwnnw.

Mae'r holl wybodaeth yn ymwneud â chleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser. Nid yw'r data'n cynnwys ail achos o'r cancer sylfaenol gwreiddiol ar safle eilaidd. Fodd bynnag, os bydd claf yn cael cancer sylfaenol arall, caiff hyn ei gynnwys.

Dechrau'r amser aros cancer yw'r dyddiad y cadarnhawyd penderfyniad i roi triniaeth, rhwng aelod dynodedig o'r tîm amlddisgyblaethol (MDT) a'r claf.

Tîm amlddisgyblaethol (MDT) – Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn dod â phobl sy'n arbenigwyr mewn meysydd gwahanol o feddygaeth a gofal at ei gilydd, ac sy'n cyfarfod i drafod diagnosis, triniaeth a gofal cleifion unigol. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn gyfrifol am y canlynol:

- llunio'r cynllun triniaeth;
- penderfynu ar brofion pellach;
- gwneud atgyfeiriadau priodol at wasanaethau arbenigol;
- sicrhau bod y tîm yn cynnwys yr aelodau angenrheidiol;
- casglu gwybodaeth a chadw cofnodion da.

Cytunir ar y driniaeth ddiffiniol gyntaf gyda'r clinigwr sy'n gyfrifol am gynllun rheoli'r claf, ac efallai nad dyma'r driniaeth gyntaf wedi'i chynllunio y penderfynir arni gan y tîm amlddisgyblaethol. Enghreifftiau o driniaethau yw llawdriniaeth, radiotherapi, cemotherapi, gofal lliniarol arbenigol a monitro gweithredol.

Ar gyfer pob claf, mae cyfrifo'r amser aros yn dilyn canllawiau ar atal neu ddileu o'r rhestr aros. Er enghraifft, gellir atal claf o'r rhestr aros am resymau meddygol megis nad yw'n ffit i fynd drwy'r driniaeth, neu am resymau cymdeithasol megis mynd dramor am gyfnod o amser.

Caiff gwybodaeth ei hadrodd gan chwech o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, gan nad yw Powys yn darparu gwasanaethau aciwt. Mae gwybodaeth am drigolion Powys sy'n cael eu trin yng Nghymru yn cael ei chynnwys yn adroddiadau'r byrddau iechyd lleol eraill lle cânt eu hatgyfeirio ar frys oherwydd amheuaeth o ganser neu pan gânt ddiagnosis o ganser. Cyhoeddir y wybodaeth ar gyfer 13 o safleoedd tiwmor canser gwahanol a chategori 'arall'.

Mae **safleoedd tiwmor canser** yn grwpiau o godau ICD10 (codau diagnosis o'r International Classification of Diseases and Health Related Problems, degfed diwygiad). Dyma'r safleoedd tiwmor canser a ddefnyddir yn y datganiad hwn:

- Lewcemia aciwt
- Yr ymennydd/system nerfol ganolog
- Y fron
- Gynaecolegol
- Haematolegol (*ac eithrio lewcemia aciwt*)
- Pen a'r gwddf
- Gastroberfeddol is
- Ysgyfaint
- Sarcoma
- Croen (*melanoma malaen a charsinoma celloedd cennog yn unig. Ddim yn cynnwys carsinoma celloedd gwaelodol*)
- Gastroberfeddol uchaf
- Wrolegol
- Canser plant (rhai o dan 16 oed ar adeg y driniaeth gyntaf)
- Arall (*pob canser arall na sonnir amdano uchod*)

Mae rhagor o wybodaeth a diffiniadau ar gael yn nogfen [Cylchlythyr Iechyd Cymru](#) (Saesneg yn unig).

Ystadegau ar gleifion un llwybr lle ceir amheuaeth o ganser:

Mae'r ystadegau'n cynnwys pob claf lle ceir amheuaeth o ganser. Mae'r llwybr yn mesur yr amser o'r pwynt amheuaeth i ddechrau'r driniaeth.

Dylai pob claf sy'n derbyn ei driniaeth ddiffiniol gyntaf yng Nghymru gael ei gynnwys yn y ffigurau hyn. Er bod trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt gydag NHS Digital ynghylch sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cleifion trawsffiniol, byddwn yn eithrio pob claf sy'n cael ei driniaeth ddiffiniol gyntaf y tu allan i Gymru. Er bod disgwyl i fyrddau iechyd reoli ac adrodd yn anffurfiol ar y cleifion hyn i Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, ni ddylid eu cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

Yn ôl canllawiau presennol USC ac NUSC, y bwrdd iechyd lle caiff y claf ei atgyfeirio yn y lle cyntaf sy'n gyfrifol am roi gwybod am amseroedd aros canser y claf hwnnw.

Y bwrdd iechyd hwnnw sy'n gyfrifol bob amser am fonitro cynnydd y claf ac felly'n adrodd arno, er enghraifft:

- mae claf yn cael ei atgyfeirio i fwrdd iechyd lleol A, ac yn cael ei drin gan fwrdd iechyd lleol A. Felly, bwrdd iechyd lleol A sy'n gyfrifol am fonitro'r broses.
- mae claf yn cael ei atgyfeirio i fwrdd iechyd lleol A, ond yn cael ei drin gan fwrdd iechyd lleol B. Ar yr achlysur hwn, mae bwrdd iechyd lleol A yn cyfeirio'r claf ar fwrdd iechyd lleol B i gael triniaeth, ac felly, bwrdd iechyd lleol A yw "perchennog ar yr amser aros" ac felly'n adrodd ar gyfer y claf hwnnw.

Yn y lle cyntaf, bydd y data canlynol yn cael ei gyhoeddi:

Cyfanswm sy'n cyrraedd y llwybr gofal: Mae'r cloc yn dechrau pan mae'r claf yn cyrraedd y llwybr lle ceir amheuaeth o ganser.

Ceir diffiniad o'r pwynt amheuaeth yn y ddogfen hon: [Point of suspicion definition](#)

Cyfanswm sy'n cychwyn triniaeth: Cyfanswm y cleifion a gafodd eu trin yn y mis, a atgyfeiriwyd i'r llwybr gofal ers 1 Ionawr 2018 gan gynnwys rhai oedd dros yn targed 62 diwrnod. Nid oes disgwyl i nifer yr atgyfeiriadau gyfateb i'r niferoedd a gafodd eu trin mewn unrhyw fis penodol.

Cyfanswm sy'n cychwyn triniaeth o fewn y targed: Cyfanswm y cleifion a gychwynnodd eu triniaeth o fewn yr amser targed yn y mis (o fewn 62 diwrnod i'r pwynt amheuaeth). Dim ond cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i'r llwybr gofal ers 1 Ionawr 2018 sy'n cael eu cynnwys.

Ar hyn o bryd, mae'r perfformiad a gyhoeddir yn cynnwys ataliadau, er mwyn cynyddu'r cymareddau rhwng y llwybrau hen a newydd. Dim ond ar gyfer cleifion sydd ar y llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser hefyd y mae'r data ataliadau'n gyflawn. Nid yw dulliau'r byrddau iechyd o gofnodi ataliadau ar gyfer cleifion nad ydynt ar y llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser yn gyson ar hyn o bryd: at ei gilydd, nid yw ataliadau cyn y penderfyniad i drin yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, mae rhai byrddau iechyd yn ychwanegu ataliadau cyn y penderfyniad i drin os yw'n amlwg o nodiadau'r claf, ond nid yw rhai byrddau iechyd yn ychwanegu rhai o gwbl. Ni ddylai'r effaith fod yn fawr iawn, ond ar hyn o bryd, does dim modd gwybod heb ofyn i fyrddau iechyd wirio'r holl gleifion NUSC â llaw yn ôl-weithredol.

Ni chyhoeddir data safleoedd tiwmor yn y lle cyntaf, ond cânt eu hychwanegu pan fydd ansawdd y data'n gyson.

Mae pob bwrdd iechyd yn adrodd gwybodaeth. Er nad yw Powys yn darparu gwasanaethau aciwt, mae'n dychwelyd gwybodaeth am gleifion sydd wedi ymuno â'r llwybr lle ceir amheuaeth o ganser. Os yw claf yn cychwyn triniaeth, mae'n cael ei gynnwys yn erbyn y Bwrdd Iechyd y cafodd ei atgyfeirio iddo.

Mae rhagor o wybodaeth am yr un llwybr canser ar gael mewn [dogfennau allweddol](#).

Defnyddwyr a defnydd

Mae dealltwriaeth o dueddiadau amseroedd aros yn hanfodol i'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol.

Credwn mai dyma brif ddefnyddwyr yr ystadegau hyn:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr;
- Aelodau Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- swyddogion Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru;
- GIG Cymru;
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- rhwydweithiau canser;
- meysydd eraill Llywodraeth Cymru;
- adrannau eraill y llywodraeth;
- y cyfryngau;
- dinasyddion unigol.

Defnyddir yr ystadegau mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- cyngor i Weinidogion a briffiau ar y perfformiad diweddaraf ledled Cymru yn erbyn tri tharged amseroedd aros canser;
- asesu, rheoli a monitro perfformiad GIG Cymru yn erbyn targedau;
- er mwyn llywio prosiectau gwella gwasanaethau ar gyfer meysydd ffocws a chyfleoedd i wella ansawdd (er enghraifft, mae'r Uned Cymorth Cyflawni yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddeall eu perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer safleoedd tiwmor canser. Os yw perfformiad yn wael mewn un Bwrdd Iechyd a bod Bwrdd Iechyd arall wedi perfformio'n dda, yna byddai'r byrddau iechyd hyn yn cael eu hannog i gydweithio er mwyn helpu i wella perfformiad a'r gwasanaeth yn gyffredinol);
- gan fyrrddau iechyd lleol y GIG, er mwyn meincnodi eu hunain yn erbyn ei gilydd;
- cyfrannu at erthyglau newyddion am amseroedd aros yng Nghymru;
- helpu i bennu'r gwasanaeth y gall y cyhoedd ei dderbyn gan GIG Cymru.

Os ydych chi'n ddefnyddiwr ac yn teimlo nad yw'r rhestr uchod yn ddigonol, rhowch wybod i ni drwy e-bostio: stats.healthinfo@gov.wales

Cryfderau a chyfyngiadau'r data

Cryfderau

Caiff gwybodaeth ei phrosesu a'i chyhoeddi'n fisol (ar StatsCymru, mewn datganiad cyntaf cryno ar ein gwefan a thrwy ddeunydd gweledol rhyngweithiol ar ddangosfwrdd ein gwefan) ac yn flynyddol (mewn adroddiad ystadegol) ac mewn modd trefnus er mwyn helpu defnyddwyr i weld yr ystadegau pan fyddant yn gyfredol ac o'r diddordeb mwyaf.

Mae'r allbynnau'n rhoi ffocws clir ar Gymru ac maent wedi'u datblygu i ddiwallu anghenion defnyddwyr mewnol ac allanol yng Nghymru. Darperir gwybodaeth gan y byrddau iechyd (yn fisol ac yn flynyddol) ac yn ôl safle tiwmor (yn flynyddol). Cyhoeddir ffigurau a chanrannau. Mae ein hadroddiad blynyddol yn rhoi cyfle i ddangos mwy o gyd-destun am y data a dadansoddi'r tueddiadau cyffredinol dros y flwyddyn gyfan yn hytrach nag o chwarter i chwarter.

Gwnaed defnydd effeithlon o ffynonellau data gweinyddol i gynhyrchu allbynnau. CANISC (System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru) yw'r ffynhonnell weinyddol ar gyfer hyn, cronfa ddata ganolog genedlaethol sy'n cyflwyno cofnodion gofal cleifion canser ledled Cymru.

Darperir ystadegau manwl drwy ein gwefan StatsCymru.

Cyfyngiadau

Mae gwybodaeth StatsCymru yn addas i gynulleidfa fwy hyddysg, heb fawr o esboniad er mwyn helpu defnyddwyr eraill i ddehongli'r data'n briodol. Rydym yn annog defnyddwyr i gysylltu â'r adroddiad ansawdd hwn a/neu'r datganiad/bwletin cyntaf ystadegol i gael mwy o gefndir.

Nid oes data wedi'i fapio.

Oherwydd y gweinyddiaethau datganoledig a'r polisiâu gwahanol rhyngddynt, mae llai o gyfle i gymharu'n uniongyrchol â'r DU (gweler 'Cysondeb' yn ddiweddarach yn y ddogfen).

Ychydig o sylwebaeth sydd yn y prif ddata misol.

Cylch prosesu data

Casglu data

Mae'r Tîm Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ystadegau Poblogaeth yn Llywodraeth Cymru yn derbyn tair ffurflen fonitro targed canser fisol wedi'u cwblhau gan y byrddau iechyd.

Mae un ffurflen ar gyfer cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio ar frys oherwydd amheuaeth o ganser, un ar gyfer cleifion nad ydynt yn rhai brys lle ceir amheuaeth o ganser ac un ar gyfer pob claf lle ceir amheuaeth o ganser.

Dilysu a gwirio

Mae'r Tîm Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ystadegau Poblogaeth yn lanlwytho'r data a dderbynnir yn fisol, ac mae'r system prosesu data'n sicrhau nad oes data ar goll. Mae archwiliadau dilysu a gwirio pellach yn cael eu gwneud bob mis, gan gynnwys gwirio tueddiadau yn y data. Nodir unrhyw ddata annormal a'i drafod gyda'r byrddau iechyd. Mae hyn yn galluogi byrddau iechyd i wirio, cywiro neu roi sylwadau ar eu data a darparu gwybodaeth gyd-destunol lle bu unrhyw newidiadau annisgwyl. Ar gyfer y cyhoeddiad blynyddol, mae'r data misol yn cael ei gronni'n ddata blynyddol, ac mae'r broses hon yn cael ei gwirio.

Cyhoeddi a diwygio

Mae'r ystadegau a gyhoeddir gan y Tîm Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ystadegau Poblogaeth yn cael eu creu trwy grynhwio'r wybodaeth a ddarperir gan y byrddau iechyd.

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi adroddiad ystadegol manwl, sy'n dwyn ynghyd y data ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'n cynnwys manylion am unrhyw broblemau a gododd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â diwygiadau neu unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud ag ansawdd. Mae pennawd yn cael ei gyhoeddi hefyd. Mae dolen hefyd o'r dudalen bennawd ac o fewn yr adroddiad ystadegol i'r adroddiad ansawdd hwn.

Bob mis, rydym yn cyhoeddi diweddariad misol cryno fel rhan o weithgarwch y GIG a chrynodeb perfformiad ar ein gwefan gyda ffeithiau allweddol a sylwebaeth gyfyngedig. Mae hyn yn cynnwys manylion unrhyw ddiwygiadau i ddata'r mis blaenorol neu unrhyw wybodaeth berthnasol yn ymwneud ag ansawdd. Hefyd, mae'r dudalen bennawd a'r datganiad ystadegau'n cynnwys dolen i dablau StatsCymru, yr adroddiad ansawdd hwn a'r bwletin ystadegau blynyddol.

Mae cynhyrchu'r datganiad a'r prif benawdau'n broses lled-awtomatig, ond mae'r prif bwyntiau a'r sylwebaeth yn cael eu cynhyrchu ar wahân. Mae'r wybodaeth yn y datganiad a'r pennawd yn cael ei gwirio yn erbyn y data a gyflenwyd. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn StatsCymru yn cael ei chynhyrchu trwy broses awtomatig.

Mewn achosion prin o ddiwygio'r data, byddwn yn tynnu sylw at hyn yn y diweddariadau cryno misol a'r wybodaeth ategol gyda thablau StatsCymru – er mwyn helpu byrddau iechyd lleol i gyflwyno data diwygiedig os byddant yn gwneud gwaith dilysu pellach ar ôl cyflwyno.

Cyn Ebrill 2012 data, cyhoeddwyd data chwarterol yn unig mewn datganiad ystadegol cyntaf ac ar StatsCymru.

Go brin y caiff data anghywir ei gyhoeddi, ond os bydd hynny'n digwydd, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a defnyddwyr yn cael gwybod am hyn yn unol â threfniadau [diwygiadau](#), [camgymeriadau a qohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Datgelu a chyfrinachedd

Yn dilyn ein hasesiad risg diweddaraf o ddatgelu, credwn fod y tebygolrwydd o adnabod claf unigol o'r data a gyhoeddwn yn isel iawn, heb fod gwybodaeth arall am y claf eisoes yn hysbys. Felly, nid ydym yn atal gwerthoedd bach mwyach (yn flaenorol, gwnaethom atal achosion o lai na thri unigolyn ar lefel bwrdd iechyd neu safle tiwmor).

Mae hyn yn unol â'r rheolau a ddefnyddir gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn eu datganiadau o amseroedd aros canser.

Rydym yn dilyn ein [datganiad ar gyfrinachedd a gweld data](#), a gyhoeddwyd yn unol â'r gofynion a nodir yn egwyddor: T6 – Llywodraethu data - [Cod ymarfer ar gyfer ystadegau](#)

Ansawdd

Mae'r Tîm Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ystadegau Poblogaeth yn dilyn [strategaeth ansawdd](#) yn unol â'r [cod ymarfer ystadegau](#).

Yn benodol, mae'r rhestr isod yn rhoi manylion am chwe dimensiwn y System Ystadegol Ewropeaidd a sut rydym yn eu harddel:

Perthnasedd

I ba raddau mae'r cynnyrch ystadegol yn bodloni anghenion defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys.

Mae'r ystadegau'n cwmpasu pob agwedd ar amseroedd aros canser a chânt eu defnyddio fel ffordd o fesur perfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol GIG Cymru – gweler y datganiad/bwletin i gael gwybodaeth am y targedau. Mae diddordeb yn y data hwn a'r defnydd a wneir ohono at ddibenion eraill wedi'i amlinellu uchod.

Rydym yn annog defnyddwyr yr ystadegau i gysylltu â ni i ddweud sut maen nhw'n defnyddio'r data. Ni fyddai modd darparu tablau i ddiwallu holl anghenion defnyddwyr, ond mae'r tablau a gyhoeddir yn y bwletin a StatsCymru yn ceisio ateb y cwestiynau cyffredin.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau, a lle bo'n bosibl, yn rhoi cyhoeddusrwydd i newidiadau ar y rhyngrwyd, mewn pwyllgorau a rhwydweithiau eraill er mwyn ymgynghori â defnyddwyr yn ehangach. Ein nod yw ymateb yn gyflym i newidiadau polisi er mwyn sicrhau bod ein hystadegau'n dal i fod yn berthnasol.

Cywirdeb

Pa mor agos yw'r canlyniad a amcangyfrifir a'r gwir werth (anhysbys).

Gellir rhannu cywirdeb yn ôl gwallau sy'n ymwneud â samplu a rhai nad ydynt yn ymwneud â samplu. Mae gwall nad yw'n ymwneud â samplu'n cynnwys meysydd fel gwall cwmpas, gwall diffyg ymateb, gwall mesur, gwall prosesu.

Mae hwn yn gasgliad sefydledig sy'n seiliedig ar ddata 100% h.y. nid sampl mohono.

Mae pob bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data ar gyfer y rhan fwyaf o fisoedd, ac felly nid oes angen amcangyfrif o'r ffigurau. Lle defnyddir amcangyfrifon, gan nad yw bwrdd iechyd yn gallu cyflenwi data ar gyfer mis penodol, amlinellir hyn yn glir yn y data.

Nid ydym wedi ymchwilio i wallau nad ydynt yn ymwneud â samplu hyd yma, ond gallai gwallau prosesu ddigwydd wrth i glercod ysbytai fewnbynnu data anghywir i'w systemau gweinyddol, neu gallai camgymeriadau mesur ddigwydd wrth i staff ysbyty gamddechongli diffiniadau. Er mwyn lleihau camgymeriadau nad ydynt yn ymwneud â samplu, darperir safonau a chanllawiau am gasgliadau data, er mwyn ceisio sicrhau bod byrddau iechyd yn cyflwyno gwybodaeth yn unol â'r fanyleb y cytunwyd arni. Mae'r safonau sy'n ymwneud â'r casgliad data hwn wedi cael eu hadolygu a'u pasio gan y [Bwrdd Safonau Gwybodaeth](#). Os yw gwallau nad ydynt yn ymwneud â samplu'n effeithio ar ddata, rydym yn darparu gwybodaeth lawn i ddefnyddwyr er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ar ansawdd yr ystadegau, yn enwedig os oes cyfyngiadau.

Mae'n holl allbynnau'n cynnwys gwybodaeth am gwmpas, amseru a daearyddiaeth.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn deall ac esbonio symudiadau yn y data ac er mwyn gwirio bod y system gyfrifiadurol yn cyfrifo'r ystadegau a gyhoeddir yn gywir.

Pe bai data anghywir gael ei gyhoeddi, er bod hynny'n annhebygol, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a byddai defnyddwyr yn cael gwybod yn unol â'n trefniadau [diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau](#).

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amseroldeb yn cyfeirio at faint o amser sydd rhwng adeg cyhoeddi'r data a'r cyfnod y mae'r data'n cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at y bwlch amser rhwng y dyddiad cyhoeddi gwirioneddol a'r dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

Mae'r holl allbynnau'n dilyn y Cod Ymarfer trwy gyhoeddi'r dyddiad cyhoeddi ymlaen llaw ar y tudalennau [Cyhoeddiadau i ddod](#). Ar ben hynny, pe bai angen gohirio allbwn, byddai'n dilyn trefniadau [diwygiadau, camgymeriadau a gohiriadau](#) Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi bod yn cyhoeddi data misol o fis Ebrill 2012 ymlaen, ac mae'n cael ei gyhoeddi tua deufis ar ôl y dyddiad cyfeirio. Mae'r data hwn yn dal i gael ei ddiweddarau'n fisol ar StatsCymru ac yng nghrynodeb gweithgarwch a pherfformiad cyfunol y GIG. Ar ben hynny, bydd bwletin blynyddol yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn, ym mis Rhagfyr fel arfer, gan fod angen ei drefnu ymhlith allbynnau eraill.

Hygyrchedd ac eglurder

Ystyr hygyrchedd yw pa mor hawdd mae defnyddwyr yn gallu cael gafael ar ddata, gan adlewyrchu'r fformat(au) y darperir y data a'r wybodaeth ategol sydd ar gael. Mae eglurder yn cyfeirio at ansawdd a digonolrwydd y metadata, y darluniau a'r cyngor cysylltiedig.

Mae'r ystadegau blynyddol yn cael eu cyhoeddi mewn Bwletin Ystadegol ac mewn pennawd ar ein gwefan. Mae'r ystadegau misol yn cael eu cyhoeddi mewn Datganiad Ystadegol, pennawd ar ein gwefan, yn StatsCymru a thrwy ddeunydd gweledol rhyngweithiol ar ddangosfwrdd ar ein gwefan. Cyhoeddir ystadegau mewn modd hygyrch a threfnus ar wefan Llywodraeth Cymru am 9:30am ar ddiwrnod ei gyhoeddi. Mae ffrwd RSS yn hysbysu defnyddwyr cofrestredig pan y'i cyhoeddir. Caiff y datganiadau eu cyhoeddi ar National Statistics Publication Hub ar yr un pryd. Rydym yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r allbynnau ar [Twitter](#) hefyd. Mae'r holl allbynnau ar gael i'w lawrlwytho am ddim.

Mae data manylach ar gael ar yr un pryd ar wefan StatsCymru, a gellir ei ddadansoddi ar-lein neu ei lawrlwytho fel taenlenni i'w defnyddio all-lein.

Ein nod yw defnyddio Cymraeg Clir/Plain English yn ein hallbynnau ac maent yn dilyn [polisi hygyrchedd](#) Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cyhoeddir ein holl benawdau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhagor o wybodaeth am yr ystadegau ar gael trwy gysylltu â'r staff perthnasol a nodir yn y datganiad/pennawd neu trwy e-bostio stats.healthinfo@gov.wales

Cymharu

I ba raddau y gellir cytuno ar ddata o ran amser a maes.

Lle mae newidiadau i'r data a ddarperir, dangosir hyn yn glir y canlyniadau. Lle y ceir rhybudd ymlaen llaw am newidiadau yn y dyfodol, byddwn yn rhag-gyhoeddi hyn yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Mae'r safonau a'r diffiniadau y cytunwyd arnynt yng Nghymru yn rhoi sicrwydd bod y data'n gyson ar draws pob bwrdd iechyd lleol.

Ar ôl dechrau casglu data ym mis Ebrill 2005, roedd problemau o ran ansawdd data (o ran adrodd am safleoedd tiwmor). Felly, dylid cymryd gofal wrth gymharu data am fisoedd cyn 2007-08 a misoedd diweddarach.

Rhwng y chwarter sy'n dod i ben ym mis Medi 2005 a y chwarter sy'n dod i ben ym mis Medi 2009: Casglwyd data ar gyfer 13 o safleoedd tiwmor canser a chategori "arall". Cafodd canlyniadau eu cyhoeddi ar gyfer y safleoedd y barnwyd bod ganddynt ddata o ansawdd digonol yn unig, gyda mwy o safleoedd yn cael eu hychwanegu wrth i ansawdd wella. Dylid nodi bod nifer y safleoedd tiwmor a gofnodwyd ar gyfer llawer o ymddiriedolaethau wedi cynyddu bob chwarter ac felly nid yw'n ddoeth cymharu o chwarter i chwarter.

Tua dechrau'r broses casglu data (y chwarter sy'n dod i ben ym mis Medi 2005 i y chwarter sy'n dod i ben ym mis Ragfyr 2006), cafodd rhai ymddiriedolaethau broblemau'n cyflwyno data ar gyfer rhai safleoedd canser.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y metadata ar [StatsCymru](#).

Cysondeb

I ba raddau y mae data sy'n deillio o ffynonellau neu ddulliau gwahanol, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomen, yn debyg.

Bob mis, cesglir y data o'r un ffynonellau ac maen nhw'n cadw at y safon genedlaethol: byddant yn gyson o fewn ac ar draws sefydliadau. Lle ceir newidiadau o ran diffiniadau neu gwmpas, rydym yn nodi hyn yn glir ar y dudalen bennawd gan ychwanegu cafeatau priodol at y data.

Mae gwledydd eraill y DU yn mesur amseroedd aros canser hefyd. Fodd bynnag, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwledydd gwahanol gan mai eu bwriad yw helpu i fonitro polisïau a ddatblygwyd ar wahân gan bob llywodraeth. Byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniadol yn cael effaith sylweddol ar gymharedd y data.

Lloegr

Yn Lloegr, mae ystadegau'n cael eu cyhoeddi'n fisol gan GIG Lloegr - [NHS England - Cancer Waiting Times](#)

Mae canllawiau ar safonau gweithredol ar gyfer amseroedd aros canser ar gael yn: [National Cancer Waiting Times Monitoring Data Set](#).

Yr Alban

Mae ystadegau'r Alban yn cael eu casglu a'u cyhoeddi bob chwarter gan Information Services Division (ISD) Scotland - [ISD Scotland - Cancer Waiting Times](#).

Mae'r set o dargedau aros ar gyfer canser yn yr Alban fel a ganlyn, gyda'r naill a'r llall â lefel goddefiant o 5% (h.y. rhaid bodloni'r amser aros penodedig ar gyfer 95% o'r holl gleifion sydd wedi'u cwmpasu gan y targed):

Targed 62 diwrnod o dderbyn atgyfeiriad i driniaeth ar gyfer pob math o ganser. Mae hyn yn berthnasol i bob un o'r grwpiau canlynol (unrhyw gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio ar frys gan eu clinigydd gofal sylfaenol (er enghraifft meddyg teulu) neu ddeintydd os ydynt yn amau achos o ganser; unrhyw gleifion sydd wedi'u sgrinio'n gadarnhaol sy'n cael eu hatgyfeirio drwy raglen genedlaethol sgrinio canser (y fron, y colon a'r rhefr a serfigol); ac unrhyw atgyfeiriad uniongyrchol i'r ysbyty (er enghraifft hunangyfeirio i adran ddamweiniau ac achosion brys).

Targed 31 diwrnod o'r penderfyniad i drin tan y driniaeth gyntaf ar gyfer pob math o ganser, waeth sut y caiff cleifion eu hatgyfeirio.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ystadegau'n cael eu cyhoeddi bob chwarter gan yr Adran Iechyd - [Northern Ireland - Cancer Waiting Times](#).

Mae targed Gweinidogol drafft 2018/19 ar gyfer gwasanaethau gofal canser yng Ngogledd Iwerddon yn nodi:

During 2018/19, all urgent breast cancer referrals should be seen within 14 days; at least 98% of patients diagnosed with cancer should receive their first definitive treatment within 31 days of a decision to treat; and at least 95% of patients urgently referred with a suspected cancer should begin their first definitive treatment within 62 days.

Ceir dadansoddiad manylach o'r gwahaniaethau rhwng y pedair gwlad yn:

[GSS - Health Waiting Time Statistics](#).

Rhannu gwybodaeth

Mae'r holl ddata o ansawdd digonol yn dilyn y gwirio a amlinellir uchod i gyfiawnhau ei gyhoeddi. Mae negeseuon lefel uchel yn cael eu cyhoeddi mewn Datganiad Ystadegol ac ar dudalen bennawd ar ein gwefan bob mis. Mae'r holl ddata gwirioneddol a ddarperir yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ryngweithiol StatsCymru a chyhoeddir data drwy ddeunydd gweledol rhyngweithiol ar ddangosfwrdd ar ein gwefan. Bob blwyddyn, mae gwybodaeth am y flwyddyn ariannol dan sylw a thueddiadau hirdymor yn cael eu cyhoeddi mewn Bwletin Ystadegol.

Gwerthuso

Anfonwch eich adborth ar yr ystadegau a'r adroddiad hwn ansawdd hwn i ystadegau.iechyd@llyw.cymru

Cynhyrchwyd gan: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adolygwyd ddiwethaf: Hydref 2019